AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

In Focus
Hydref 2023 - Rhifyn 23

# Cylchlythr Hydref AWTTC

**Diweddariad chwarterol sy'n cynnwys y newyddion a'r mewnwelediadau diweddaraf gan ein tîm amlddisgyblaethol.**

## Yn y rhifyn hwn
## Gorfennaf – Medi 2023 ynghylch:

- **Gwasanaeth Mynediad Cleifion at Feddyginiaethau (PAMS)**
  Cefnogi arfarniadau technoleg iechyd a chydlynu allbynnau IPFR
- **Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU)**
  Dadansoddi data presgripsiynu a datblygu adnoddau optimeiddio meddyginiaethau
- **Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNPU)**
  Darparu cyngor ar wenwynau 24 awr y dydd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol
- **Canolfan Cerdyn Melyn (YCC) Cymru**
  Monitro adweithiau andwyol i feddyginiaethau

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol AWMSG 2022–2023

Awst 2023

Yn yr adroddiad blynyddol diweddaraf, gallwch ddarllen mwy am yr holl brosiectau y mae AWMSG wedi bod yn gweithio arnynt drwy gydol 2022–2023.

Darllenwch fwy yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Diwrnod Arfer Gorau AWTTC 2023

Gorffennaf 2023

Roedd Diwrnod Arfer Gorau blynyddol AWTTC yn ddiwrnod llawn gwybodaeth arall, digwyddiad sy'n hwyluso rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau gwelliannau mewn arferion rhagnodi yng Nghymru.

Darllwnwch fwy yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Ymchwil diweddar a gyhoeddwyd gan AWTTC

Gorffennaf 2023

Mae AWTTC wedi ychwanegu 3 chyhoeddiad newydd at ei chatalog o erthyglau cyfnodolion; llythyrau; posteri cynadleddau, crynodebau a sgyrsiau; llyfrau a phenodau llyfrau a Chymrodoriaethau.

Darllenwch fwy yma.

## AWTTC yn mynychu Cynhadledd MediWales Connects 2023

Gorffennaf2023

Roedd y gynhadledd hon, a gynhaliwyd yn Canolfan yr Holl Genhedloedd yng Nghaerdydd, yn gyfle i arddangos gwaith AWTTC a dysgu am y gwaith sy'n cael ei wneud gan gymunedau iechyd a gofal yng Nghymru.

Darllenwch fwy yma.

## AWTTC yn mynychu Cynhadledd Comisiwn Bevan 2023

Medi 2023

Roedd y gynhadledd hefyd yn nodi 75 mlynedd ers sefydlu'r GIG ac yn dathlu ei gyflawniadau dros y 75 mlynedd diwethaf

Darllenwch fwy yma.

## Cyfarfod y Grŵp er budd Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG)

Gorffennaf 2023

Mewn partneriaeth ag Anabledd Dysgu Cymru, mae AWTTC wedi cynhyrchu ei fersiwn Hawdd ei Deall gyntaf o daflen gwybodaeth i gleifion fel rhan o'r adnoddau addysgol Tramadol.

Darllenwch fwy yma.

## Sut mae AWMSG ac AWTTC yn cefnogi cynaliadwyedd ar gyfer y GIG yng Nghymru

Medi 2023

Mae adroddiad, AWMSG a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2022), yn amlinellu sut mae AWMSG ac AWTTC yn gweithio i gyflawni saith nod llesiant y ddeddf drwy bedwar amcan llesiant. Mae'r adroddiad yn pwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu a chydweithio â rhanddeiliaid, gan gynnwys y diwydiant fferyllol, i gyrraedd y nodau hynny.

Darllenwch fwy yma.

## Fersiwn hawdd ei deall o'r daflen wybodaeth i gleifion Tramadol wedi'i chyhoeddi

Awst 2023

Datblygwyd yr adnoddau hyn yn gyntaf yn 2013 mewn ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru. Mae'r diweddariad hwn wedi adolygu'r sylfaen dystiolaeth gyfredol ac wedi diwygio'r wybodaeth yn yr adnoddau o fewn cyd-destun ehangach rheoli poen. Mae'r mân ddiwygiadau diweddar yn cynnwys aildrefnu gwybodaeth er mwyn gwella hwylustod a diweddaru canllawiau i adlewyrchu manylebau gwasanaeth presennol

Darllenwch fwy yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Y Llyfr Fformiwlâu Anhwylderau Cyffredin Cymru Gyfan diweddaraf wedi'i gyhoeddi

Awst 2023

Nod y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin yw gwella mynediad cleifion at gyngor cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer rheoli anhwylderau cyffredin.

Darllenwch fwy yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Mân ddiweddariadau i 'Rheoli endocrin anghydweddiad rhywedd mewn oedolion: Canllawiau presgripsiynu ar gyfer ymarferwyr nad ydynt yn arbenigwyr' wedi'u cyhoeddi

Gorffennaf 2023

Mae'r ddogfen canllawiau presgripsiynu hon at ddefnydd ymarferwyr nad ydynt yn arbenigwyr sy'n cefnogi'r gwaith o bresgripsiynu a monitro therapïau meddygol a ddefnyddir i reoli anghydweddiad rhywedd mewn oedolion (dros 18 oed).

Darllenwch fwy yma.

PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

## Diweddariad ar gydweithrediad HTA rhyngwladol

Medi 2023

Mae Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) yn parhau i fod yn rhan o gydweithio rhyngwladol estynedig. Ym mis Medi 2022, cyhoeddodd AWTTC gydweithrediad rhyngwladol gyda chydweithwyr o asiantaethau asesu technoleg iechyd (HTA) ar draws y DU, Awstralia a Chanada.

Darllenwch fwy yma.

PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

## GIG Cymru yw'r cyntaf i gymeradwyo mynediad rheolaidd i dostarlimab (Jemperli) ar gyfer canser y rectwm

Awst 2023

Gall cleifion yn GIG Cymru sydd â math penodol o ganser y rectwm, bellach gael mynediad at feddyginiaeth a allai atal yr angen am lawdriniaeth ymyrrol sy'n newid bywyd.

Darllenwch fwy yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Mân ddiweddariadau i 'Canllawiau gwrthficrobaidd gofal sylfaenol' wedi'u cyhoeddi

Gorffennaf a Medi 2023

Datblygwyd y canllaw hwn i roi cyngor cynhwysfawr ar reoli cyffuriau gwrthficrobaidd ar gyfer heintiau cyffredin mewn gofal sylfaenol, gan ystyried data rhagdueddiad pathogenau lleol a gwrthficrobaidd yng Nghymru.

Darllenwch fwy yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Fersiynau diweddaraf o 'adroddiad ôl-troed carbon anadlyddion GIG Cymru' ac 'adroddiadau cyfnodau rhagnodi GIG Cymru'

Gorffennaf, Awst a Medi 2023

Mae Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU), uned ddadansoddol AWTTC, wedi datblygu dangosfwrdd er mwyn adrodd ar gynnydd mewn lleihau ôl-troed carbon anadlyddion a ddefnyddir ym maes gofal sylfaenol yng Nghymru.

Darllenwch fwy yma

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2022-2023: Adroddiadau chwarterol

Gorffennaf 2023

Mae Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol (NPIs) ar gyfer 2022-2023 yn cynnwys dangosyddion ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd.

Darllenwch fwy yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Dangosfwrdd SPIRA newydd o'r enw 'Effeithlonrwydd – Brand i Generig' wedi'i gyhoeddi

Gorffennaf 2023

Mae cyfres o ddangosfyrddau a grëwyd i helpu i leihau'r gwariant cyffredinol ar eitemau wedi'u brandio bellach ar gael ar y Gweinydd ar gyfer Gwybodaeth, Adroddiadau a Dadansoddiadau Rhagnodi (SPIRA).

Darllenwch fwy yma.



WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol

## Digwyddiad DPP y Gwasanaeth Gwybodaeth Gwenwynau Cenedlaethol, Caeredin, DU, 13-14 Medi 2023

Medi 2023

Cyfarfu'r Gwasanaeth Gwybodaeth Gwenwynau Cenedlaethol (NPIS) ddechrau mis Medi ar gyfer digwyddiad Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) deuddydd rhagorol, a gynhaliwyd yn Riddle's Court yng Nghaeredin.

Darllenwch fwy yma.

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol

## 10fed Cyfarfod Gwenwynau a Thocsinoleg Rhyngwladol

Medi 2023

Yn ddiweddar mynychodd Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (UGCC) y 10fed Cyfarfod Gwenwynau a Thocsinoleg Rhyngwladol yn Rhydychen, DU. Roedd yr UGCC yn gallu cyflwyno pedwar poster yn y cyfarfod.

Darllenwch fwy yma.

Yellowcard
Centre
Wales

## Diwrnod Diogelwch Cleifion y Byd 2023

Medi 2023

Dathlwyd Diwrnod Diogelwch Cleifion y Byd 2023 ar ddydd Sul 17 Medi a bu'n gyfle gwych i hyrwyddo'r Cynllun Cerdyn Melyn ledled Cymru.

Darllenwch fwy yma.



Cofrestrwch i dderbyn cylchlythyrau'r dyfodol a darllenwch ein cylchlythyrau blaenorol ar wefan AWTTC.

I ddarllen newyddion diweddaraf AWTTC dilynwch: @AWTTCcomms I @AWTTCcymraeg

I roi adborth neu i ymuno â rhestr bostio AWTTC, e-bostiwch: awttc@wales.nhs.uk